# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3) 16-08

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 6 Tachwedd 2008**
**Amser y cyfarfod: 1.30pm - 3.10pm**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns (Cadeirydd), Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chris Franks, Canol De Cymru
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
Nick Ramsay, Sir Fynwy
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Jeff Andrews, Cynghorydd Arbennig, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dr Christine Daws, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sioned Evans, Cyfarwyddwr Ystadau a Phrosiectau, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nick Bourne AC ac Ann Jones AC.  Roedd Lorraine Barrett yn dirprwyo ar ran Ann Jones AC ac roedd Nick Ramsay AC yn dirprwyo ar ran Nick Bourne AC.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat: y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Papur:**

FIN(3) 16-08 (p1) ymateb gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.1 Casglodd y pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn mewn ymateb i unrhyw gwestiynau pellach gan y pwyllgor. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi unrhyw gwestiynau o'r fath.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

(a) nodyn yn rhestru'r prosiectau Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat nad ydynt wedi'u cwblhau yng Nghymru hyd yn hyn, yn cynnwys categoreiddio'r prosiectau hyn.
(b) nodyn i hysbysu'r pwyllgor am ran gyntaf gwaith EPEC ar gyfleoedd Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat o fewn y seilwaith trafnidiaeth.

### Eitem 3: Ystyried goblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

**Papur:**

FIN(3) 12-08 (p2) y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau  (Cymru)
FIN(3) 12-08 (p3) y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) - Memorandwm Esboniadol
FIN(3) 12-08 (p4) y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) - gwybodaeth ariannol

3.1 Casglodd y pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau.

3.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu nodyn ar y rhagdybiaethau a wnaed wrth ystyried goblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru).

**Penderfynodd y pwyllgor gynnal gweddill y cyfarfod mewn preifat yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi)**

**Eitem 4: Ystyried adroddiad drafft y pwyllgor ar amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10**

4.1 Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2008**